

1872



**Yr Adran Daearyddiaeth
a Gwyddorau Daear**



Fframwaith
Rhagoriaeth
Addysgu

Yr Adran Daeryddiaeth a Gwyddorau Daear

Adeilad Llandinam, Campws Penglais

Prifysgol Aberystwyth, Aberystwyth.

SY23 3DB

+44 (0) 1970 622606

dges-admissions@aber.ac.uk

@AUIGES

@AU_DGES

Gwybodaeth bwysig

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir yn y llyfryn hwn am y rhaglenni gradd yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w argraffu (Gorffennaf 2019), ond gellid ei newid. Cyn gwneud cais, rydym yn cyngori darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs gan gynnwys ein gofynion mynediad, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.

Cynnwys

- 3 Croeso
- 4 Ein Cyrsiau
- 20 Yr Adran
- 22 Cyflogadwyedd
- 23 Cyfleoedd i Astudio Dramor
- 24 Ymchwil
- 26 Sut i Wneud Cais





Croeso


Mae'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ymysg y mwyaf a'r mwyaf profiadol o'i math yn y Deyrnas Unedig. Mae'n arbenigo mewn ystod eang o themâu ar draws y gwyddorau naturiol, ffisegol a chymdeithasol. Yn ddiweddar rydym wedi dathlu canrif o ddaeryddiaeth yn Aberystwyth, ac rydym wedi bod yn dysgu Gwyddorau Daear hyd yn oed yn hirach! Mae gennym draddodiad maith o gynnis cynlluniau gradd cyfoes a chyffrous, ac wedi ychwanegu cymdeithaseg at ein portffolio'n ddiweddar, ar sail dros 100 mlynedd o ymchwil arloesol yn y gwyddorau cymdeithasol ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Mae'n staff yn angerddol ynglŷn â'u gwaith. Maent yn ymchwilyr a darlithwyr ymroddedig, llawer ohonynt yn flaenllaw yn eu priod feysydd. Mae eu gwybodaeth uniongyrchol o'r byd yn bwydo'n cyrsiau israddedig drwy amryw o themâu arbenigol.

Rydym yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu ichi, boed mewn darlithfa, dosbarth seminar, tiwtorial, mewn labordy neu ar gyrsiau maes. Cewch eich asesu mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys arholiadau, adroddiadau, cyflwyniadau, fideos a thraethodau, bob un ohonynt wedi'u dylunio i wella'ch sgiliau pwnc-benodol, personol a throsglwyddadwy. Yn ogystal â myfyrwyr bodlon iawn, rydym bob amser wedi sicrhau hanes da o ran cynhyrchu graddedigion cyflogadwy iawn.

Mae rhagor o wybodaeth am ein cyrsiau a'n cyfleoedd eraill ar gael drwy'r llyfryn hwn i gyd, a hoffwn eich annog i ymweld â ni ar Ddiwrnod Agored neu Ddiwrnod Ymweliadau Ymgeiswyr er mwyn gweld drosoch eich hun beth sy'n gwneud Aberystwyth yn lle mor anhygoel i astudio ynddo.

Dr Tom Holt,
Cyfarwyddwr Derbyniadau, Yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear



Ein Cyrsiau

Cyfrwng Cymraeg*

Addysg gyda Daearyddiaeth Ddynol (BA, 3 blynedd)

Cymraeg / Daearyddiaeth (BA, 3 blynedd)

Daearyddiaeth (BSc, 3 blynedd)

Daearyddiaeth / Gwleidyddiaeth Ryngwladol (BA, 3 blynedd)

Daearyddiaeth / Hanes (BA, 3 blynedd)

Daearyddiaeth / Hanes Cymru (BA, 3 blynedd)

**Fe'i cyflwynir yn rhannol neu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg.*

Anrhydedd Sengl

Environmental Earth Science (BSc, 3 year)

Environmental Science (BSc, 3 year)

Geography (BSc, 3 year)

Geography (with integrated year in industry) (BSc, 4 year)

Geography (with integrated year studying abroad) (BSc, 4 year)

Human Geography (BA, 3 year)

Human Geography (with integrated year in industry) (BA, 4 year)

Human Geography (with integrated year studying abroad) (BA, 4 year)

Physical Geography (BSc, 3 year)

Physical Geography (with integrated year in industry) (BSc, 4 year)

Physical Geography (with integrated year studying abroad) (BSc, 4 year)

Sociology (BA, 3 years)

Anrhydedd Cyfun

Computer Science / Physical Geography (BSc, 3 year)

Human Geography / English Literature (BA, 3 year)

Physical Geography / Mathematics (BSc, 3 year)

Economics with Human Geography (BSc, 3 year)

Human Geography with Business and Management (BA, 3 year)

Human Geography with Economics (BA, 3 year)

Physical Geography with Education (BSc, 3 year)

Physical Geography with Mathematics (BSc, 3 year)





Environmental Earth Science

BSc

Byddwch yn astudio planed y Ddaear fel system unedig, gan edrych ar y rhyngweithio rhwng y Ddaear greigiog solet (lithosffer) a'r amgylchedd eilaidd, sy'n cynnwys yr hydrosffer, y biosffer a'r atmosffer.

Cewch eich dysgu gan arbenigwyr mewn daeareg a'r gwyddorau amgylcheddol, cwaternaidd a ffisegol, sy'n cynnig cynllun gradd cyfoethog a gwerthfawr a chyfleoedd gwych yn y labordy ac mewn gwaith maes. Bydd ein cyfleusterau yn eich helpu i archwilio sgiliau craidd mewn daeareg, a'u cymhwyso at ystod eang o broblemau amgylcheddol byd-eang cyfoes.

Mae ein gradd mewn Gwyddor Daear Amgylcheddol yn eich hyfforddi i ddeall systemau naturiol y Ddaear, sut mae bodau dynol wedi manteisio ar adnoddau'r Ddaear, a'r hyn y gallwn ei wneud i reoli'n hamgylchedd presennol ac adeiladu un cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Mae'r themâu allweddol yn cynnwys:

- Esblygiad daearegol y Ddaear
- Geoberyglon
- Prosesau ac amgylcheddau wyneb y Ddaear
- Adnoddau a chynaliadwyedd y Ddaear
- Geogemeg amgylcheddol
- Dysgu cymhwysol yn y labordy a'r maes



Math o radd: BSc



Cod UCAS: F640



Hyd: 3 mlynedd.



Cyfleoedd gwaith maes:

Teithiau maes preswyl wythnos o hyd yn y DU yn ystod blynyddoed 1 a 2 o'ch gradd, gyda'r dewis i fynd ar daith ryngwladol ym mlwyddyn 3. Mae lleoliad teithiau diweddar yn cynnwys Cymru, Cernyw a Gogledd Iwerddon (*adolygir y ddarpariaeth gwaith maes yn flynyddol*).

Mae modiwlau ar y cwrs yma'n cynnwys:

Blwyddyn 1

- > An introduction to Earth Materials
- > Earth Surface Environments
- > Fieldwork Skills
- > Global Ecology and Soil Systems
- > Researching the World: Data Collection and Analysis
- > The Dynamic Earth
- > The Geological Evolution of the British Isles
- > Life on Earth

Blwyddyn 2

- > Advanced Earth Materials
- > Earth Resources
- > Field Skills
- > Fundamentals of Geochemistry
- > Laboratory Techniques

Blwyddyn 3

- > Independent Project for Environmental Earth Science

Byddwch hefyd yn astudio modiwlau arbenigol mewn Gwyddor y Ddaear a'r Amgylchedd.

Environmental Science

BSc

Mae'n gradd ni mewn Gwyddor Amgylcheddol yn edrych ar rai o'r materion a'r heriau pwysicaf sy'n wynebu'r gymdeithas. Rydym yn cynnig cyfle unigryw i astudio yn yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddor Daeare yn ogystal ag Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, (IBERS). Cewch eich dysgu gan ymchwilyr o'r radd flaenaf yn y byd yn y gwyddorau ffisegol a biolegol, sy'n cynnig cwrs cyffrous a difyr gydag amrywiaeth gwyb o gyfleoedd yn y labordy ac mewn gwaith maes.

Mae'r radd yn canolbwyntio ar brosesau amgylcheddol y gorffennol, y presennol a'r dyfodol, a'u cydadweithiau cymhleth â gweithgareddau dynol. Byddwch yn ymchwilio i ymateb y gymdeithas i faterion amgylcheddol naturiol a dynol, a sut mae'r rhain yn cael eu rheoli. Cewch gyfle i archwilio amgylcheddau naturiol y ddaear, gan gynnwys ei biosffer, ei phedofffer, ei hydrosffer a'i hatmosffer.



Math o radd: BSc



Cod UCAS: F750



Hyd: 3 mlynedd.

Mae'r cyfleoedd arbenigol mewn Gwyddor Amgylcheddol yn Aberystwyth yn cynnwys Labordy Arsylwi'r Ddaear, Labordy Palaeoecoleg, Labordy Ymchwil Ymoleuedd, systemau acwariwm ar gyfer organebau morol ac organebau dŵr croyw, Meicrosgopeg Uwch a Labordy Bioddelwedd, cyfleusterau ar gyfer dilyniannu DNA, metabolomeg a phroteomeg, a Labordy Modelu ar gyfer integreiddio data biolegol mewn gofod ac amser. Hefyd, mae gennych fynediad i fferm y brifysgol a Llwyfan Ymchwil Ucheldir Pwllpeiran.

Mae'r themâu allweddol yn cynnwys:

- Prosesau ac amgylcheddau wyneb y Ddaear
- Ecoleg fyd-eang a gwyddor systemau pridd
- Cylchoedd atmosfferig a hydrolegol
- Bioleg dŵr croyw a'r môr
- Meicrobioleg amgylcheddol
- Newid palaeoamgylcheddol



Cyfleoedd gwaith maes:

Teithiau maes preswyl wythnos o hyd yn y DU yn ystod blynnyddoed 1 a 2 o'ch gradd, gyda'r dewis i fynd ar daith ryngwladol ym mlwyddyn 3. Mae lleoliad teithiau diweddar yn cynnwys Cymru, Gogledd Iwerddon, Creta, Yr Alban, Portiwgal, Seland Newydd a Borneo (*adolygir y ddarpariaeth gwaith maes yn flynyddol*).

Mae modiwlau ar y cwrs yma'n cynnwys:

Blwyddyn 1

- > Climate Change: Impacts, Perceptions, Adaptations
- > Earth Surface Environments
- > Global Ecology and Soil Systems
- > The Atmosphere and the Water Cycle
- > The Biosphere
- > Evolution and the Diversity of Life
- > Level 1 Fieldwork

Blwyddyn 2

- > Environmental Science Fieldwork
- > Chemical Analysis of Natural Materials
- > Reconstructing Past Environments
- > Geohazards
- > Earth Resources
- > Ecological Surveying
- > Climate Change: Plants, Animals and Ecosystems
- > Environmental Microbiology and Monitoring

Blwyddyn 3

- > Environmental Science Dissertation

Byddwch hefyd yn astudio modiwlau arbenigol mewn Gwyddor y Ddaear a'r Amgylchedd.





Geography

BSc

Mae'n cynllun gradd mewn Daearyddiaeth yn cynnig cyfle i ystyried pynciau allweddol mewn daearyddiaeth ddynol a ffisegol.

Mae'r themâu yn cynnwys:

- systemau hydrolegol
- prosesau rhewlifol
- geomorffoleg
- gwyddor systemau pridd
- deinameg ecosystemau
- daearyddiaeth ddiwylliannol a hanesyddol
- trefoli, newid a datblygiad gwledig
- lle a hunaniaeth a globaleiddio.

Mae'n myfyrwyr Daearyddiaeth hefyd yn cael cyfle i astudio themâu rhyngddisgyblaethol fel newid amgylcheddol, geoberyglon a chynaliadwyedd. Byddwch hefyd yn cael eich hyfforddi mewn sgiliau penodol, er enghraifft mewn synhwyro o hirbell, GIS a dulliau ymchwil gymdeithasol.

Mae Rhan 2 ein strwythur cynllun gradd hyblyg yn golygu y gallwch naill ai arbenigo mewn maes penodol neu barhau ag amrywiaeth o ddiddordebau gydol y cwrs, sy'n eich galluogi i ganolbwyntio ar themâu sy'n eich cyffroi.

Cewch eich dysgu gan ymchwilwyr sy'n arwain y byd yn eu priod feysydd o wythnos gyntaf hyd at wythnos olaf eich gradd.



Math o radd: BSc



Cod UCAS: F800



Hyd: 3 mlynedd. Gellir astudio'r radd hon fel gradd pedair mlynedd gyda Blwyddyn mewn Diwydiant (F803) neu gyda Blwyddyn o Astudio Dramor (F802).

Mae modiwlau ar y cwrs yma'n cynnwys:

Blwyddyn 1

- > Climate Change: Impacts, Perceptions, Adaptations
- > Conflict and Change: the Making of Urban and Rural Spaces
- > Earth Surface Environments
- > Global Ecology and Soil Systems
- > Living with Global Change
- > Place and Identity
- > Researching the World: Data Collection and Analysis
- > The Atmosphere and the Water Cycle

Blwyddyn 2

- > Geographical Information Systems
- > Concepts for Geographers
- > Geography Fieldwork
- > Physical Analysis of Natural Materials
- > Researching People and Place

Blwyddyn 3

- > Geography Dissertation

Byddwch hefyd yn astudio modiwlau dewisol mewn daearyddiaeth ddynol a ffisegol ym mlynnyddoedd 2 a 3.

Mae pob taith maes preswyl ofynnol yn y DU yn rhad ac am ddim, gan gynnwys teithiau o gwmpas Cymru yn eich flwyddyn gyntaf, yn ogystal â'r daith maes breswyl ym Mlwyddyn 2. Mae teithiau preswyl ryngwladol ar gael am gost ychwanegol, a bu i'r rhain yn ddiweddar gynnwys Creta, Berlin, Seland Newydd a Lwerddon (*adolygir y ddarpariaeth gwaith maes yn flynyddol*).

Daearyddiaeth

BSc

Mae gan yr Adran draddodiad hir o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n cynllun gradd BSc Daearyddiaeth yn cynnig cyfle i astudio dwy ran o dair o'r cwrs gyda'n tîm o ddarlithwyr cyfrwng Cymraeg dynodedig.

Rydym yn cynnig modiwlau cyfrwng Cymraeg ar brosesau dynol a ffisegol sy'n effeithio ar y byd, ac ar y materion gwleidyddol ac amgylcheddol sy'n codi o ganlyniad i gydadweithio pobl â'r Ddaear. Mae themâu'r modiwlau'n amrywio o geomorffoleg afonol, hydroleg a Gwyddor Daear i daearyddiaeth wleidyddol a diwylliannol. Mae'r myfyrwyr hefyd yn cael cyfle i ddewis rhai modiwlau o blith ein darpariaeth cyfrwng Saesneg.

Mae Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol o hyd at £3,000 ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio'n gradd BSc Daearyddiaeth. Fel rhan o'r Ysgoloriaeth byddwch hefyd yn elwa ar leoliad gwaith sy'n cael ei drefnu ac yn cael cyfle i weithio tuag at gymwysterau Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Mae modiwlau ar y cwrs yma'n cynnwys:

Blwyddyn 1

- > Newid Hinsawdd
- > Bywyd ar y Ddaear
- > Newid a Gwrthdaro: Cynhyrchu Gofodau Gwledig a Threfol
- > Amgylcheddau Wyneb y Ddaear
- > Global Ecology and Soil Systems
- > Byw gyda Newid Byd-eang
- > Power, Place, Identity and Politics
- > Researching the World: Data Collection and Analysis
- > The Atmosphere and the Water Cycle

Blwyddyn 2


- > Lleoli Gwleidyddiaeth
- > Geomorffoleg Afonol
- > Daearberyglon
- > Concepts for Geographers
- > Gwaith Maes Daearyddiaeth
- > Physical Analysis of Natural Materials
- > Ymchwilio i Bobl a Lle

Blwyddyn 3


- > Traethawd Estynedig Daearyddiaeth

Byddwch hefyd yn astudio modiwlau dewisol mewn daearyddiaeth ddynol a ffisegol ym mlynnyddoedd 2 a 3 drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae pob taith maes preswyl ofynnol yn y DU yn rhad ac am ddim, gan gynnwys teithiau o gwmpas Cymru yn eich flwyddyn gyntaf, yn ogystal â'r daith maes breswyl ym Mlwyddyn 2. Mae teithiau preswyl ryngwladol ar gael am gost ychwanegol, a bu i'r rhain yn ddiweddar gynnwys Creta, Berlin, Seland Newydd a Iwerddon (*adolygir y ddarpariaeth gwaith maes yn flynyddol*).

 **Math o radd:** BSc

 **Cod UCAS:** F801

 **Hyd:** 3 mlynedd.





Human Geography

BA

Mae'n gradd ni mewn Daearyddiaeth Ddynol yn ymdrin â rhai o'r prif faterion sy'n wynebu'r byd heddiw, gan gynnwys: lle a hunaniaeth; globaleiddio; datblygu cynaliadwy; anghydraddoldeb a thlodi; geowleidyddiaeth; cenedlaetholdeb a rhanbartholdeb; newid trefol a gwledig; ac ymfudo. Byddwch yn astudio'r prosesau hanesyddol y tu ôl i dueddiadau cyfoes, gan ddod â safbwyntiau at ei gilydd o wahanol wledydd a diwylliannau, a defnyddio ffynonellau gwahanol sy'n amrywio o fapiau ac ystadegau i ffilm, celf a llenyddiaeth.

Mae ein cwrs Daearyddiaeth Ddynol yn cynnig strwythur modiwlaidd hyblyg sy'n caniatáu ichi ddatblygu'ch diddordebau penodol, a chanolbwyntio ar yr hyn sy'n gyffrous ichi. Cewch eich dysgu gan ymchwilyr o'r radd flaenaf yn y byd yn eu priod feysydd o wythnos gyntaf hyd at wythnos olaf eich gradd.



Math o radd: BA



Cod UCAS: L700



Hyd: 3 mlynedd. Gellir astudio'r radd hon fel gradd pedair mlynedd gyda Blwyddyn mewn Diwydiant (L703) neu gyda Blwyddyn o Astudio Dramor (L704).

Mae modiwlau craidd ar y cwrs yma'n cynnwys:

Blwyddyn 1

- > Conflict and Change: the Making of Urban and Rural Spaces
- > Living with Global Change
- > Place and Identity
- > Climate Change: Impacts, Perceptions, Adaptations
- > Researching the World: Data Collection and Analysis

Blwyddyn 2

- > Geographical Information Systems
- > Concepts for Geographers
- > Geography Fieldwork
- > Placing Culture
- > Placing Politics
- > Geographical Perspectives on the Sustainable Society
- > Physical Analysis of Natural Materials
- > Researching People and Place

Blwyddyn 3

- > Geography Dissertation

Byddwch hefyd yn astudio modiwlau dewisol mewn daearyddiaeth ddynol ym mlynnyddoedd 2 a 3.

Mae pob taith maes preswyl ofynnol yn y DU yn rhad ac am ddim, gan gynnwys teithiau o gwmpas Cymru yn eich flwyddyn gyntaf, yn ogystal â'r daith maes breswyl ym Mlwyddyn 2. Mae teithiau preswyl ryngwladol ar gael am gost ychwanegol, a bu i'r rhain yn ddiweddar gynnwys Creta, Berlin, Seland Newydd a Lwerddon (*adolygir y ddarpariaeth gwaith maes yn flynyddol*).

Physical Geography

BSc

Mae'n gradd ni mewn Daearyddiaeth Ffisegol yn caniatáu ichi edrych ar y prosesau sylfaenol sy'n llunio'r byd rydym yn byw ynddo. Gyda chymorth ymchwil sy'n arwain y byd ac a wnaed gan ein staff ni, mae'r themâu allweddol yn cynnwys: newid amgylcheddol cwaternaidd; systemau hydrolegol; prosesau rhewlifol; geomorffoleg; gwyddor systemau pridd a deinameg ecosystemau. Fel myfyriwr Daearyddiaeth Ffisegol, gallwch hefyd ddewis astudio pynciau o natur ryngddisgyblaethol, megis rheoli'r amgylchedd, cynaliadwyedd, adnoddau'r ddaear, a geoberyglon. Mae strwythur y radd yn eich galluogi naill ai i arbenigo mewn maes penodol neu i barhau ag amrywiaeth o ddiddordebau drwy gydol eich cwrs.

Byddwch yn meithrin sgiliau allweddol daearyddwr ffisegol, gan gynnwys cael eich hyfforddi i ddefnyddio pecynnau dadansoddi ystadegol, meddalwedd synhwyro o hirbell a GIS, ac yn ymgymryd ag amryw o arbrofion labordy a gwaith maes. Cewch eich addysgu gan ymchwilwyr sy'n arwain y byd yn eu priod feysydd o wythnos gyntaf hyd at wythnos olaf eich gradd.

Mae modiwlau ar y cwrs yma'n cynnwys:

Blwyddyn 1

- > Climate Change: Impacts, Perceptions, Adaptations.
- > Earth Surface Environments
- > Global Ecology and Soil Systems
- > Living with Global Change
- > Researching the World: Data Collection and Analysis
- > The Atmosphere and Water Cycle

Blwyddyn 2


- > Geographical Information Systems
- > Chemical Analysis of Natural Materials
- > Physical Analysis of Natural Materials
- > Catchment Systems
- > The Frozen Planet
- > Reconstructing Past Environments
- > Geography Tutorial
- > Geography Fieldwork

Blwyddyn 3


- > Geography Dissertation

Byddwch hefyd yn astudio modiwlau dewisol mewn daearyddiaeth ffisegol ym mlynnyddoedd 2 a 3.

Mae pob taith maes preswyl ofynnol yn y DU yn rhad ac am ddim, gan gynnwys teithiau o gwmpas Cymru yn eich flwyddyn gyntaf, yn ogystal â'r daith maes breswyl ym Mlwyddyn 2. Mae teithiau preswyl ryngwladol ar gael am gost ychwanegol, a bu i'r rhain yn ddiweddar gynnwys Creta, Berlin, Seland Newydd a Iwerddon (*adolygir y ddarpariaeth gwaith maes yn flynyddol*).

 **Math o radd:** BSc

 **Cod UCAS:** F840

 **Hyd:** 3 mlynedd. Gellir astudio'r radd hon fel gradd pedair mlynedd gyda Blwyddyn mewn Diwydiant (F845) neu gyda Blwyddyn o Astudio Dramor (F846).





Sociology

BA

Mae'n gradd ni mewn Cymdeithaseg yn cynnig set arloesol a chyffrous o ddulliau o astudio'r byd o'n cwmpas; byddwch yn meithrin seiliau cadarn yn yr ymagweddau cysyniadol a damcaniaethol sydd wedi'u defnyddio gan gymdeithasegwyr.

Mae'r rhaglen radd hon yn ymdrin ag ystod amrywiol o themâu gan gynnwys globaleiddio, gwahaniaeth cymdeithasol, symudedd, gwleidyddiaeth hunaniaeth, ymfudo, anghydraddoldeb, cyfiawnder cymdeithasol, a newid trefol a gwledig. Mae'n eich galluogi i feithrin ymwybyddiaeth feirniadol o'r byd cymdeithasol, a'ch ymgysylltiad ag ef.

Gan ddefnyddio arbenigedd gwyddonwyr cymdeithasol enwog, nodweddir ein cwrs Cymdeithaseg gan ddysgu yn y maes a datblygu sgiliau gyrfa. Byddwch hefyd yn meithrin eich gallu i ddadansoddi ffenomenau cymdeithasol drwy hyfforddiant mewn casglu, dadansoddi a chyflwyno data cymdeithasegol. Yn rhan 2, bydd cyfle i wneud gwaith maes mewn dinas yn Ewrop, sy'n eich galluogi i wella'ch sgiliau casglu data maes a'ch sgiliau dadansoddi.

Yn ystod eich gradd cewch eich dysgu gan arbenigwyr yn eu priod feysydd, sydd ar hyn o bryd yn ymwneud â phrosiectau gwaith ymchwil ynglŷn ag ymfudo rhyngwladol, newid gwledig, effaith Brexit ar bobl ifanc, ac addysg a deallusrwydd emosiynol, i enwi ond ychydig.

Mae modiwlau ar y cwrs yma'n cynnwys:

Blwyddyn 1

- > Understanding Sameness and Difference
- > Key Concepts in Sociology
- > Place and Identity
- > Conflict and Change: the Production of the City and the Country
- > Childhood in Society
- > Researching the Social World

Blwyddyn 2

- > Understanding (in)equality and (in)justice
- > Introduction to Social Theory
- > Placing Culture
- > Quantitative Research Methods
- > Urban Sociology in Practice
- > Media and Society in Wales
- > Field Methods for Sociologists
- > Researching People and Place

Blwyddyn 3

- > Sociology Dissertation
- > Everyday Social Worlds



Math o radd: BA




Cod UCAS: L300



Hyd: 3 mlynedd.

Yr Adran



Cyflogadwyedd



Hoffem weld pob un o'n myfyrwyr yn mynd ymlaen i wireddu popeth yr oedden nhw'n dymuno ei wneud. Dyna pam rydym yn sicrhau bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i'ch helpu i godi'ch sgiliau i wneud hynny yn ystod eich amser gyda ni.

Drwy gydol eich gradd byddwn yn datblygu ymwybyddiaeth gyrfa, ac mae'n cyrsiau i gyd yn helpu'r myfyrwyr i feithrin y sgiliau y mae eu hangen yn y gweithle modern.

Ar ben hyn, mae'r opsiynau ar gyfer blwyddyn integredig mewn diwydiant ar ein cynlluniau gradd Daearyddiaeth, Daearyddiaeth Ffisegol a Daearyddiaeth Ddynol yn eich galluogi i brofi'r gweithle yn ystod eich blwyddyn mewn diwydiant. Bydd myfyrwyr y cyrsiau hyn yn ymgymryd â'r flwyddyn mewn diwydiant yn ystod y drydedd

flwyddyn gan ddychwelyd i gwblhau'r radd ym Mhrifysgol Aberystwyth yn y bedwaredd flwyddyn.

Bydd rhai myfyrwyr yn ymgymryd â phrofiad gwaith am dâl, ond nid yw'r Adran yn gallu gwarantu y bydd pob lleoliad yn cael ei dalu.

Mae menter unigol, trafodaethau grŵp a sgiliau arwain yn cael eu hybu drwy amryw o gyfleoedd a ddarperir mewn darlithoedd, seminarau, tiwtorialau, llyfrgelloedd, y maes a lleoliadau ymarferol.

Mae graddedigion diweddar wedi mynd i mewn i amryw o yrfaoedd, gan gynnwys ymgynghori amgylcheddol lleol a rhanbarthol, cynllunio a datblygu, teithio a thwristiaeth, llywodraeth leol, addysg ac estyn allan, newyddiaduraeth a gyrfaedd yn y gwasanaeth sifil.

Cyfleoedd Astudio Dramor

Mae'r Adran yn eich annog i ystyried astudio dramor fel rhan o'ch gradd.

Yn Aberystwyth, mae yna dwy brif ffordd gall myfyrwyr astudio dramor. Drwy'r cynllun Erasmus+ cewch astudio yn un o brifysgolion Ewrop, sy'n bartneriaid i ni. Bydd myfyrwyr sy'n mynd ar leoliad Erasmus+ yn gymwys am grant. Os byddwch am astudio mewn gwlad tu allan i Ewrop, gallwch gymryd rhan yn Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol y Brifysgol.

Erasmus+

Y Weriniaeth Tsiec

- > Prifysgol Charles, Prague

Ffrainc

- > Prifysgol Bordeaux Montaigne, Pessac
- > Prifysgol Paris-Sorbonne
- > Prifysgol La Rochelle

Yr Almaen

- > Prifysgol Ewropeaidd Viadrina, Frankfurt
- > Prifysgol Goettingen

Iwerddon

- > Prifysgol Cenedlaethol Iwerddon, Galway
- > Mary Immaculate College, Limerick
- > Prifysgol Maynooth
- > Coleg Prifysgol Dulyn

Yr Iseldiroedd

- > Prifysgol Utrecht

Norwy

- > Prifysgol Tromso

Gwlad Pwyl

- > Prifysgol Wroclaw

Portiwgal

- > Prifysgol Coimbra

Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol

Awstralia

- > Prifysgol Deakin
- > Prifysgol Griffith
- > Prifysgol Murdoch, Perth
- > Prifysgol De Cymru Newydd, Sydney
- > Prifysgol Newcastle

Azerbaijan

- > Prifysgol ADA, Baku

China

- > Prifysgol Nottingham, Ningbo

Canada

- > Prifysgol Dalhousie, Halifax, Nova Scotia
- > Prifysgol McGill, Montreal
- > Prifysgol Thompson Rivers, British Columbia
- > Prifysgol Guelph, Ontario
- > Prifysgol Ottawa
- > Prifysgol Victoria, British Columbia

Hong Kong

- > Prifysgol y Bedyddwyr, Hong Kong

Japan

- > Prifysgol Rikkyo, Tokyo

Gwlad Thai

- > Prifysgol Thammasat

UDA:

- > Y Brifysgol Americanaidd
- > Prifysgol Daleithiol Boise
- > Prifysgol Daleithiol Bowling Green
- > Prifysgol Carroll
- > Prifysgol Purdue
- > Prifysgol Queen's Charlotte
- > Prifysgol Alabama
- > Prifysgol Georgia
- > University of Louisville, Kentucky
- > Prifysgol Montana
- > Coleg Utica
- > Prifysgol Daleithiol Washington
- > Westminster College, Missouri
- > Prifysgol Willamett

Ymchwil

Cewch eich dysgu gan ymchwilwyr sy'n arwain y byd yn ystod eich amser yn Aberystwyth. Mae'n staff ni'n arbenigwyr ar draws ystod eang o feysydd mewn daearyddiaeth ddynol, daearyddiaeth ffisegol, gwyddor amgylcheddol, Gwyddor Daeare a chymdeithaseg. Maent yn gweithio ar draws chwe grŵp ymchwil penodol: Canolfan Rewlifeg; Daearyddiaeth Ddiwylliannol a Hanesyddol; Arsylwi ar y Ddaear a Deinameg Ecosystemau; Prosesau Wyneb y Ddaear; Daearyddiaeth Wleidyddol Newydd; a Newid Amgylcheddol Cwaternaidd.

Yn yr asesiad ymchwil diweddaraf ledled y Deyrnas Unedig (REF 2014) cafodd yr Adran ei gosod ymysg y 10 adran uchaf yn y Deyrnas Unedig o ran pŵer ymchwil mewn daearyddiaeth ac astudiaethau amgylcheddol, gan ddynodi ansawdd ac ehangder y gwaith ymchwil a wnawn. Un o nodweddion allweddol yr ethos 'addysgu ar sail ymchwil' yn Aberystwyth yw y byddwch yn cael cyswllt rheolaidd ag arloeswyr ac arweinwyr cydnabyddedig yn eu priod feysydd. Mae hyn yn sicrhau eich bod yn agored i'r syniadau academaidd diweddaraf mewn darlithoedd, tiwtorialau, seminarau a chyrsgiau maes israddedig drwy gydol ein rhaglenni.

Prosiectau ymchwil diweddar:

CHERISH (Hinsawdd, Treftadaeth ac Amgylcheddau Riffiau, Ynysoedd a Phentiroedd): prosiect a ariennir gan yr UE sy'n anelu at gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o effeithiau newid hinsawdd (yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol agos), rhagor o stormydd a digwyddiadau tywydd eithafol ar dreftadaeth ddiwylliannol riffiau, ynysoedd a phentiroedd moroedd rhanbarthol Cymru ac Iwerddon, gan gynnwys hefyd y Comisiwn Brenhinol, y rhaglen Discovery ac Arolwg Daearegol Iwerddon. Gweler: www.cherishproject.eu, Facebook: CHERISH Project, Twitter: @CHERISHproj


Peryglon rhewlifol yn Chile: Prosiect a ariennir gan NERC (DU) a CONICYT (Chile) ac sy'n ceisio ateb cwestiynau allweddol ynglŷn â gorffennol, presennol a dyfodol peryglon rhewlifol yn Chile. Mae'r prosiect yn asesu y newid ym maint, amllder a dosbarthiad y gwahanol beryglon rhewlifol yn Chile o dan y newid yn yr hinsawdd byd-eang sy'n digwydd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae'r prosiect yn dwyn ynghyd ymchwilwyr blaenllaw o Brifysgol Aberystwyth, Prifysgol Austral yn Chile, Prifysgol Caerwysg, Reynolds International Ltd (UK) a Phrifysgol Magallanes (Chile). Gweler: wordpress.aber.ac.uk/glacialhazardsinchile/project/, Facebook: Glacial Hazards in Chile, Twitter: @GlacialHazards.

Arsylwi ar y Ddaear a Deinameg Ecosystemau: Mae'r tîm Arsylwi ar y Ddaear yn Aberystwyth yn defnyddio data synhwyro o hirbell sy'n cael ei gasglu ar y ddaear, yn yr awyr ac yn y gofod er mwyn deall yn well effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol newid hinsawdd ar

ecosystemau ac amgylcheddau. Mae'r tîm wedi datblygu ffyrdd i nodi cynefinoedd fector ar gyfer malaria drwy fanteisio ar wybodaeth a gafwyd o ddata synhwyro o hirbell a'i gynhyrchion. Drwy wneud hyn, gall gwaith rheoli malaria gael ei dargedu ar ardaloedd lle mae'r angen mwyaf er mwyn helpu i ddileu'r clefyd hwn.

Byd-eang-Gwledig: Nod y prosiect eang hwn yw canfod sut mae globaleiddio'n newid lleoedd gwledig o amgylch y byd a sut mae cymunedau gwahanol yn ymateb. Mae'r ymchwil wedi canolbwyntio ar amrywiaeth o themâu a safleoedd, gan gynnwys astudio sut mae Seland newydd wedi dod yn archbwr llaeth byd-eang, sut mae busnesau yn y Drenewydd yma yng Nghymru yn defnyddio ffyrdd newydd i gystadlu mewn marchnad gynyddol fyd-eang, a sut mae cynhyrchu a bwyta siwgr wedi dylanwadu ar economïau a masnach gwledig. Gweler: www.global-rural.org, Twitter: @globalrural

WISERD (Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru): Mae'r ganolfan ymchwil aml-sefydliad cenedlaethol hwn yn gwneud ymchwil arloesol ar y gymdeithas sifil gan rychwantu daearyddiaeth ddynol, cymdeithaseg a disgyblaethau eraill yn y gwyddorau cymdeithasol. Mae themâu'r ymchwil yn cynnwys: ymfudo, lleiafrifoedd a'r gymdeithas; cymunedau lleol a globaleiddio; ac iaith, diwylliant a hunaniaeth. Gweler: www.cwps.aber.ac.uk, Facebook: WISERD News, Twitter: @WISERDNews



Sut i wneud cais

Pan fyddwch wedi penderfynu pa gwrs yr hoffech ei astudio a ble, gallwch ddechrau'r broses o ymgeisio. Dyma gipolwg byr o'r broses a'n gweithdrefnau yma yn Aberystwyth.

1 Gwneud cais trwy UCAS.com

Dyddiad cau 15 Ionawr. Cod sefydliad Prifysgol Aberystwyth: A40

GAIR I GALL: Cewch rif UCAS 10 digid. Cadwch hwn wrth law oherwydd gofynnir am y rhif nifer o weithiau.

2 Bydd y brifysgol yn ystyried eich cynnig

GAIR I GALL: Defnyddiwch UCAS Track i gadw llygad ar eich cais. Yn Aberystwyth rydym yn ceisio gwneud penderfyniad o fewn 4 wythnos.

3 Bydd y cynnig i'w weld ar UCAS Track

4 Penderfynwch ble i fynd

Pan fyddwch wedi cael eich holl gynigion, bydd angen i chi benderfynu i ba brifysgol yr hoffech fynd, o fewn amser penodol. Dyma pryd y bydd angen i chi nodi pa brifysgolion fydd eich dewisiadau cadarn ac wrth gefn.

5 Llety

Pan fyddwch wedi gwneud eich dewis cadarn/ wrth gefn gallwch wneud cais am lety (1 Ebrill ymlaen).


6 Diwrnod y canlyniadau

Bydd UCAS Track yn cadarnhau eich cynnig o le. Os nad ydych yn sicr beth yw'r cynnig, cysylltwch â'r brifysgol yn uniongyrchol. Gwnewch yn sicr nad ydych ar wyliau ar ddiwrnod y canlyniadau. Os nad ydych yn cael y graddau yr oeddech wedi gobeithio amdanynt, efallai yr hoffech ystyried y broses Glirio

7 Dechreuwch bacio!







Glasgow

Caeredin

Lerpwl

Bangor

Manceinion

Wreccsam

Birmingham

Aberystwyth

Abertawe

Caerdydd

Llundain